# Pecyn Ymholi

## Wyth cam i astudio

Tîm Recriwtio a Chefnogi Myfyrwyr

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys


**Croeso i'r Brifysgol Agored** **3**

**Beth ydych chi eisiau ei astudio a beth ydych chi am ei gyflawni??** **4**

**Faint o amser sydd gennych i astudio?** **6**

**A oes gennych chi fynediad at gyfrifiadur a band eang?** **8**

**Sut mae astudio PA yn gweithio?** **9**

**Ydych chi'n barod ar gyfer astudio yn y BA?** **11**

**Ai dim ond graddau ydych chi'n eu cynnig?** **13**

**Faint fydd cost fy astudiaethau? Sut alla i dalu amdanyn nhw?** **15**

**Alla i gael cymorth ar gyfer fy anabledd?** **18**

**Camau nesaf** **20**


This document is also available in English.

# Croeso i'r Brifysgol Agored

Ni yw'r Tîm Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr yng Nghymru, ac rydym yma i'ch cefnogi ar eich taith fel myfyriwr, o benderfynu pa fodiwl neu gymhwyster i'w astudio, i fod yno i chi yn ystod eich astudiaethau. Yng Nghymru, rydym yn cefnogi dros 16,000 o fyfyrwyr unigol o bob cefndir, rydym yn ffynhonnell gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'n holl fyfyrwyr.

Drwy fynd â chi drwy wyth pwynt i'w hystyried, bydd y pecyn hwn yn eich helpu i benderfynu a yw astudio gyda'r Brifysgol Agored yn addas i chi.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech eu trafod, cysylltwch â ni. Gallwch gysylltu dros y ffôn ar 029 2002 0354 (Llun-Gwener, 8:30am-5pm) neu drwy ebost **Wales-Support@open.ac.uk**.  Os hoffech chi gyfathrebu â ni yn Gymraeg, yna rhowch wybod i ni a bydd un o'n tîm yn hapus i helpu.



# Beth ydych chi eisiau ei astudio a beth ydych chi am ei gyflawni?

Cymrwch funud i ystyried pam rydych chi eisiau astudio gyda ni a beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni cyn i chi ddechrau eich astudiaethau. Mae gan rai o'n myfyrwyr nod gyrfa clir mewn golwg tra bod eraill yn astudio er diddordeb neu ddatblygiad personol. Mae ein holl fyfyrwyr yn wahanol a bydd eich rhesymau dros astudio gyda ni yn unigryw i chi a'ch amgylchiadau personol. Fodd bynnag, bydd cael nodau clir, boed eich ffocws yn ddatblygiad personol neu'n hyrwyddo'ch gyrfa, yn eich helpu i wneud penderfyniad gwybodus ac yn gwella'ch siawns o lwyddo.

Dyma rai pethau y gallwch chi eu gwneud i helpu gyda hyn:

A. Defnyddiwch y cwestiynau hyn i'ch helpu i fyfyrio. Does dim ateb cywir nac anghywir, ac mae'n hollol iawn os nad oes gennych chi'r ateb i rai ohonyn nhw! Gall meddwl amdanyn nhw helpu:

- Beth ydych chi eisiau ei astudio a pham?
- Ydyw'n ddiddordeb personol neu a oes gennych chi nod gyrfa mewn golwg?
- Ydych chi wedi astudio'r pwnc hwn o'r blaen? Os na, sut ydych chi'n gwybod y byddwch chi'n mwynhau ei astudio?
- Sut bydd eich astudiaethau yn cyd-fynd â'ch cynlluniau hirdymor ac amgylchiadau bywyd?

B. Porwch y gwefannau canlynol os oes angen i chi archwilio syniadau gyrfa:

- Y Brifysgol Agored: **open.ac.uk/courses/careers**
- Prospects: **prospects.ac.uk/planner**
- Gyrfa Cymru: **gyrfacymru.llyw.cymru**

C. Cewch syniad o sut deimlad yw astudio ar-lein gyda'n cyrsiau OpenLearn rhad ac am ddim. Mae'r cyrsiau ar-lein hyn yn ddetholiadau o fodiwlau blaenorol a phresennol y Brifysgol Agored,, felly byddant yn rhoi syniad da i chi o sut deimlad yw astudio'r pwnc rydych wedi ei ddewis gyda ni.

Darganfod mwy am OpenLearn

Ewch i **open.edu/openlearn**

# Faint o amser sydd gennych chi i astudio?

Nid oes rhaid i astudio olygu rhoi'r gorau i'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae agwedd unigryw, hyblyg y Brifysgol Agored at ddysgu yn golygu y gallwch chi astudio ochr yn ochr â'ch swydd, teulu, ffrindiau ac amser hamdden. Fodd bynnag, mae astudio yn y Brifysgol Agored yn ymrwymiad amser mawr. Bydd angen 16 i 20 awr yr wythnos arnoch i astudio ar gyfer modiwl 60 credyd. Os cofrestrwch ar fodiwl 120 credyd (llawn amser), bydd angen i chi astudio rhwng
32 a 40 awr yr wythnos.



Mae astudio ar gyfer cymhwyster gyda'r Brifysgol Agored tra'n gweithio llawn amser yn her. Fodd bynnag, gellir ei wneud. Mae gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr y Brifysgol Agored ymrwymiadau bywyd gwaith eraill ar wahân i astudio. Er y bydd angen i chi reoli eich amser yn ofalus i barhau â'ch astudiaethau, mae'n bwysig cofio nad oes angen i chi gwblhau eich holl astudiaethau ar yr un pryd bob wythnos neu mewn blociau mawr o amser. Byddwch yn greadigol a gwnewch y gorau o bob cyfle: allwch chi wasgu i mewn 20 munud o astudio yn ystod eich awr ginio neu ar eich ffordd i'r gwaith?

Hyd yn oed os mai dim ond am gyfnodau byr y gallwch astudio, mae o i gyd o werth.

Mae'n hanfodol eich bod yn ystyried faint o amser a fydd gennych i astudio cyn i chi gofrestru gyda'r Brifysgol Agored. Efallai y bydd ein hofferyn 'Time Planner' yn ddefnyddiol i chi.

Cofiwch adael rhywfaint o amser i'ch hun wrth gynllunio'ch oriau astudio – ni all bywyd ymwneud â gwaith ac astudio yn unig!



Darganfod mwy am ein 'cynlluniwr amser'

Ewch i **open.ac.uk/courses/do-it/finding-time**

# A oes gennych chi fynediad at gyfrifiadur a band eang?

Mae’r Brifysgol Agored yn sefydliad dysgu o bell ac oherwydd hynny, bydd llawer o’ch deunydd modiwl ar gael ar-lein. Am y rheswm hwn, bydd angen gliniadur neu fwrdd gwaith arnoch, yn ogystal â band eang. Yn anffodus, mae’n amhosib astudio gan ddefnyddio ffôn, waeth pa mor glyfar ydyw!

Nid oes angen i chi fod yn athrylith TG i astudio gyda ni – a byddwch yn datblygu eich sgiliau cyfrifiadurol wrth i chi astudio. Fodd bynnag, bydd angen sgiliau TG sylfaenol arnoch i ddechrau.



# Sut mae astudio PA yn gweithio?

Mae'r Brifysgol Agored yn arbenigo mewn dysgu o bell rhan-amser ar-lein. Mae hyn yn golygu y byddwch yn astudio'n annibynnol, gan ddarllen trwy ddeunyddiau cwrs sydd wedi'u cynllunio i'r pwrpas hwnnw. Mae gan bob modiwl wefan modiwl, sef canolbwynt eich astudiaethau ac sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ac adnoddau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich astudiaethau. Mae'r cynllunydd astudio wythnosol yn dweud wrthych beth ddylech chi fod yn ei wneud a pha bryd ac yn eich helpu i reoli eich llwyth gwaith yn effeithlon. Er y bydd y cynllunydd astudio yn eich arwain yn eich gwaith, chi sydd i benderfynu sut i drefnu eich astudiaethau, rheoli eich amser a phenderfynu pryd i astudio.

Fodd bynnag, ni fyddwch ar eich pen eich hun wrth astudio gyda'r Brifysgol Agored. Ar gyfer pob modiwl y byddwch yn ei astudio, byddwch yn cael tiwtor y gellir cysylltu ag ef am gymorth academaidd drwy gydol y modiwl. Eich tiwtor yw eich man cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw bryderon sydd gennych am eich astudiaethau, felly peidiwch â bod ofn cysylltu ag ef. Gallwch hefyd ymgysylltu â myfyrwyr eraill drwy fforymau ar wefan y modiwl neu drwy Gymdeithas Myfyrwyr y BA. Mae yna hefyd ystod eang o adnoddau ar-lein yn y Ganolfan Gymorth ar eich tudalen CartrefMyfyrwyr i'ch cynorthwyo yn eich astudiaethau.

Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, gallwch gysylltu â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrwyr yng Nghymru dros y ffôn, ebost, neu sgwrs we.

Byddwch hefyd yn cael tiwtorialau rheolaidd ar gyfer pob un o'ch modiwlau gyda llawer yn cynnig dewis o diwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein ar amseroedd a dyddiadau amrywiol, fel arfer gyda'r nos neu ar ddydd Sadwrn. Mae tiwtorialau yn gyfarfodydd lle byddwch yn cyfarfod â thiwtor a myfyrwyr eraill i adolygu a thrafod rhai agweddau neu themâu yr ydych chi wedi'u dysgu ar y modiwl. Maent yn aml yn ffordd wych o'ch helpu i baratoi ar gyfer eich aseiniadau ac i gysylltu â myfyrwyr eraill ar eich cwrs. Gall mynychu sesiynau tiwtorial fod o fudd mawr i'ch astudiaethau, ond os na allwch fynychu tiwtorial, nid oes angen poeni gan eu bod yn aml yn cael eu recordio.



Darganfod mwy am Gymdeithas Myfyrwyr y BA

Ewch i **oustudents.com**

# Ydych chi'n barod ar gyfer astudio yn y BA?

Rydyn ni'n wahanol i brifysgolion eraill oherwydd rydyn ni'n agored i bawb. Nid oes gan y rhan fwyaf o'n cyrsiau unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ac mae ein myfyrwyr yn dod o ystod amrywiol o gefndiroedd addysgol. Er enghraifft, mae gan 41% o'n myfyrwyr lai na dwy Lefel A tra bod 46% o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Dyma pam rydym yn cynnig dewis o fannau cychwyn yn dibynnu ar ba mor hyderus ydych yn eich sgiliau astudio. Gallwch naill ai blymio'n syth i'ch astudiaethau prifysgol neu efallai y byddai'n well gennych ddechrau graddol gyda modiwl Mynediad.



Mae modiwlau Mynediad yn fan cychwyn ardderchog ar gyfer astudiaethau'r Brifysgol Agored os nad ydych wedi astudio ers tro neu'n teimlo bod eich sgiliau ysgrifennu academaidd a darllen ychydig yn rhydlyd. Maent yn ymdrin ag ystod o bynciau a sgiliau astudio ac yn rhoi cyflwyniad gwych i Addysg Uwch. Wedi'u cynllunio i feithrin eich hyder, mae'r modiwlau hyn yn ffordd wych o ddeall arddull dysgu'r BA. Efallai y byddwch hyd yn oed yn gallu astudio modiwl Mynediad am ddim os ydych yn bodloni ein gofynion cymhwysedd.

Pan fyddwch yn astudio modiwl Mynediad, byddwch yn cael tiwtorialau ffôn un-i-un gyda thiwtor pwrpasol a all deilwra ei ymagwedd at eich anghenion unigol ar amser sy'n gyfleus i chi. Bydd gennych hefyd fynediad at y Tîm Cymorth i Fyfyrwyr yng Nghymru sydd wrth law i'ch helpu gydag unrhyw faterion neu ymholiadau a allai fod gennych ynghylch eich astudiaethau.

Y tri modiwl Mynediad rydym yn eu cynnig yw:

- Celfyddydau ac Ieithoedd (opsiwn llwybr carlam ar gael hefyd)
- Busnes a'r gyfraith
- Seicoleg, Gwyddor Gymdeithasol a Lles (opsiwn llwybr carlam ar gael hefyd)
- Gwyddoniaeth, Technoleg a Mathemateg (opsiwn llwybr carlam hefyd ar gael hefyd)



Darganfod mwy am ein cyrsiau Mynediad

Ewch i **open.ac.uk/courses/do-it/access**

# Ai dim ond graddau ydych chi'n eu cynnig?

Nid ydym yn cynnig graddau yn unig! Mae llawer o'n cymwysterau'n mynd o un cam i'r llall. Gallech ddechrau gyda thystysgrif a rhoi'r gorau yno, neu gallech barhau â'ch astudiaethau i ennill diploma ac yna gradd. Eich dewis chi yn llwyr!

Gallwch wneud Tystysgrif Addysg Uwch gwerth 120 credyd. Bydd hyn yn dangos eich gallu i astudio ar lefel prifysgol, magu eich hyder, a chefnogi newid gyrfa neu ddilyniant. Yn nodweddiadol, bydd hyn yn cymryd blwyddyn ar ddwyster astudio llawn amser neu ddwy flynedd yn rhan amser.



Rydym hefyd yn cynnig Diploma Addysg Uwch gwerth 240 credyd. Byddai hyn yn eich galluogi i ennill yr arbenigedd y mae llawer o gyflogwyr yn ei werthfawrogi mewn llai o amser na gradd a datblygu gwybodaeth pwnc arbenigol a sgiliau amhrisiadwy. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn cymryd dwy flynedd ar ddwyster llawn amser neu bedair blynedd yn rhan amser.

Neu gallwch ddewis astudio Gradd Anrhydedd sy'n 360 credyd. Mae hyn yn agor y drws i swyddi a chynlluniau i raddedigion, cymwysterau ôl-raddedig, a swyddi lefel uwch. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn cymryd tair blynedd ar ddwyster amser llawn neu chwe blynedd yn rhan amser.

Mae astudio gyda'r Brifysgol Agored yn hyblyg. Gall dwyster eich astudiaeth amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gallwch gymryd seibiannau astudio os oes angen.

Darganfod mwy am ein cymwysterau

Ewch i **open.ac.uk/courses/types**

# Faint fydd cost fy astudiaethau? Sut alla i dalu amdanyn nhw?

Nid yw astudio gyda'r Brifysgol Agored yn rhad ac am ddim, ond mae'n fwy fforddiadwy nag y byddech chi'n meddwl. Nid oes rhaid i chi dalu am eich cymhwyster ymlaen llaw. Yn lle hynny, byddwch yn talu fesul modiwl. Mae gan bob modiwl ffi unigol. Bydd y nifer o fodiwlau yr ydych yn dewis eu hastudio yn effeithio ar faint mae'n ei gostio bob blwyddyn.

Mae sawl ffordd o ariannu eich astudiaethau israddedig gyda'r Brifysgol Agored. Y dull talu mwyaf poblogaidd yw benthyciad ffioedd dysgu rhan-amser (a elwir weithiau yn fenthyciad myfyriwr) gan Gyllid Myfyrwyr Cymru (CMC). Golygai nad ydych chi'n talu dim byd ymlaen llaw. Nid yw benthyciadau ffioedd dysgu rhan-amser yn dibynnu ar brawf modd, felly byddwch yn gymwys i wneud cais waeth beth fo'ch incwm ac nid oes terfyn oedran i bobl hŷn. Mae ad-daliadau'n gysylltiedig â'ch incwm, nid faint rydych chi'n ei fenthyg. Hyd yn oed os ydych yn ennill dros y trothwy incwm, ni fydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad am hyd at bedair blynedd.

Darganfod mwy am ein ffioedd presennol

Ewch i **open.ac.uk/courses/fees-and-funding**

Sylwch, fodd bynnag, na fyddwch yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu rhan-amser os ydych yn astudio modiwl annibynnol. Dim ond modiwlau sy'n gysylltiedig â chymhwyster y bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn eu hariannu.

Os teimlwch nad benthyciad ffioedd dysgu rhan-amser yw'r opsiwn cywir i chi neu os nad ydych yn bodloni'r gofynion cymhwysedd, mae opsiynau eraill ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Benthyciad Cyfrif Cyllideb Myfyrwyr y Brifysgol Agored Cyf. (CCMBA)
- Nawdd Cyflogwr
- Taliad cerdyn debyd neu gredyd ymlaen llaw
- Credydau Dysgu Uwch (CDU) os ydych yn aelod o'r Lluoedd Arfog

Mae rhagor o fanylion am yr holl ddulliau ariannu sydd ar gael i fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru ar gael ar **open.ac.uk/courses/fees-and-funding**

Os oes gennych radd eisoes, dim ond os byddwch yn astudio rhai cyrsiau cymwys y byddwch yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu rhan-amser.

Manylion cyrsiau cymwys os oes gennych radd eisoes

Ewch i **open.ac.uk/courses/fees-and-funding/equivalent-qualifications**

Yn olaf, gallech fod yn gymwys am grant cynhaliaeth, nad oes rhaid ei dalu'n ôl, gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar incwm eich aelwyd a dwyster eich astudiaethau. Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth heb fod yn ddarostyngedig i brawf modd, petai ei angen arnoch, i'w ychwanegu at y cymorth ariannol a gewch drwy grantiau.



Os oes gennych chi blant neu ddibynyddion sy'n oedolion ac yn astudio ar ddwyster o 50% neu fwy, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am grantiau ychwanegol ar sail incwm gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys Grant Gofal Plant, Lwfans Dysgu i Rieni a Grant Oedolion Dibynnol.

Os byddwch yn penderfynu gwneud cais am gyllid cynhaliaeth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, y cynharaf y byddwch yn derbyn y rhandaliad cyntaf o'ch cyllid fydd mis ar ôl dyddiad dechrau eich modiwl cyntaf. Mae hyn er mwyn caniatáu amser i wneud yn siwr eich bod yn cymryd rhan weithredol yn eich astudiaethau gyda'r Brifysgol Agored. Os na fyddwch yn ymgysylltu â'ch astudiaethau, ni fyddwch yn cael eich cyllid.

Darganfod mwy am gyllid cynhaliaeth

Ewch i **open.ac.uk/courses/fees-and-funding/learning-and-support-grants**

# Alla i gael cymorth ar gyfer fy anabledd?

Mae hygyrchedd yn flaenllaw yng nghenhadaeth y BA i fod yn 'agored i bawb', a dyna pam mae mwy o fyfyrwyr anabl yn dewis y BA nag unrhyw Brifysgol arall yn y DU. Mae 27% o fyfyrwyr Cymru yn datgan anabledd – mae hynny bron i 4,500 o fyfyrwyr!

Os oes gennych gyflwr iechyd hirdymor, anhawster dysgu penodol (fel dyslecsia), neu anhawster iechyd meddwl, efallai y bydd cymorth ar gael i'ch helpu gyda'ch astudiaethau.

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am eich anabledd neu gyflwr iechyd, fel y gallwn drafod gyda chi sut y gallwn eich cefnogi gyda'ch astudiaethau a gwneud addasiadau i'n haddysgu i ddiwallu eich anghenion. Mae'n ein galluogi i'ch cefnogi'n fwy effeithiol os ydym yn gwybod eich gofynion penodol.

.

Darganfod mwy am gymorth ychwanegol

Ewch i **open.ac.uk/courses/do-it/disability**

Nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyflwr i hawlio'r rhan fwyaf o wasanaethau cymorth anabledd. Fodd bynnag, bydd angen dogfennau ar gyfer rhai trefniadau arbenigol (er enghraifft amser ychwanegol mewn arholiad neu addasiadau rhesymol penodol).

Mae cymorth ychwanegol yn cynnwys fformatau amgen arbenigol o ddeunyddiau modiwl a threfniadau amgen ar gyfer arholiadau. Os hoffwch drafod pa gymorth ychwanegol a allai fod ar gael i chi, yna cysylltwch â ni.



Byddem hefyd yn annog pob myfyriwr ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor i wneud cais am y Lwfans Myfyriwr Anabl gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Mae hwn yn grant sy'n helpu i dalu am offer a chymorth ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd..

Darganfod mwy am y Lwfans Myfyriwr Anabl

Ewch i **https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-rhan-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/beth-sydd-ar-gael/lwfans-myfyrwyr-anabl/**

# Camau nesaf

Diolch i chi am gymryd yr amser i fynd drwy'r camau hyn. Gobeithiwn fod y canllaw hwn wedi eich helpu i

- Ddeall sut mae astudiaeth y BA yn gweithio
- Deall faint o amser sydd angen i chi ei neilltuo ar gyfer eich astudiaethau
- Archwilio'r hyn yr hoffech ei gael o'ch astudiaethau gyda'r BA
- Penderfynu pa faes pwnc a chymhwyster yr hoffech ei astudio
- Penderfynu ai astudio gyda'r BA yw'r dewis iawn i chi a ble y gallech ddechrau eich astudiaethau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill neu os hoffech drafod hyn gyda rhywun, yn Gymraeg neu yn Saesneg, cyn gwneud eich penderfyniad, cysylltwch â ni drwy.

Cysylltwch â ni drwy:

Ffôn ar **029 2002 0354**     Llun-Gwener, 8.30am – 5pm

Ebost ar **Cymorth-cymru@open.ac.uk**

Fel arall, os oes gennych syniad go dda am yr hyn yr hoffech ei astudio, gallwch gofrestru ar-lein drwy ein gwefan.

Mae ein Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad yn rhad ac am ddim ac yn ddiduedd.

I gofrestru ar gwrs Ewch i

**open.ac.uk/wales/cy**

Rydym wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi.  . Fodd bynnag, bydd gennym hawl, os ydym yn ystyried ei fod yn rhesymol angenrheidiol (gan gynnwys er mwyn rheoli adnoddau a gwella profiad myfyrwyr) i wneud newidiadau, gan gynnwys i'r modiwlau a'r cymwysterau sydd ar gael, i strwythur cymwysterau ac i'n rheoliadau, ein polisïau a'n gweithdrefnau. *Mawrth 2025*

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru